OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2014 Rhif 2855 (Cy. 291)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Blaen-porth, Ceredigion) (Codi Cyfyngiad a Chyflwyno Terfyn Cyflymder o 40 mya) 2014

Gwnaed	*23 Hydref 2014*
Yn dod i rym	*30 Hydref 2014*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Abergwaun – Bangor (yr A487) ("y gefnffordd"), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 82(2), 83(1), 84(1) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 30 Hydref 2014. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Blaen-porth, Ceredigion) (Codi Cyfyngiad a Chyflwyno Terfyn Cyflymder o 40 mya) 2014.

Codi Cyfyngiad

2. Bydd y darn o gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn yn peidio â bod yn ffordd â chyfyngiad arni at ddiben Adran 81 o Ddeddf 1984.

Cyfyngiad

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

(**1**) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 84(2) gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22), Atodlen 8, paragraff 61. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

Dyddiedig 23 Hydref 2014

R Morgan
RICHARD MORGAN
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau Llywodraeth Cymru

YR ATODLENNI

Darnau o gefnffordd yr A487 ym Mlaen-porth yn Sir Ceredigion.

ATODLEN 1

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 392 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r C1165 Bowls Road, hyd at bwynt 199 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno.

ATODLEN 2

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 361 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r C1165 Bowls Road, hyd at bwynt 174 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno.